



GORUCHWYLIO O BELL

Canllaw i Oruchwylwyr

Fersiwn 1 - Ionawr 2022

Cynnwys

1. Rhagarweiniad	2
2. Gwasanaeth Goruchwyllo o Bell Recordio ac Adolygu CBAC	2
3. Adolygu recordiadau: Cyfarwyddiadau Cam wrth Gam	3
4. Nodi a rheoli amheuaeth o gamymddwyn gan ymgeiswyr	12

1. Rhagarweiniad

Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau cam wrth gam i unigolion a benodir i adolygu asesiadau a oruchwylir o bell gan ddefnyddio Gwasanaeth Goruchwyllo o Bell CBAC.

Yn y ddogfen hon mae arweiniad a chyfarwyddiadau i staff canolfannau gan gynnwys Penaethiaid Canolfannau, Aseswyr Mewnol, Goruchwylwyr a Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol ynghylch sut i gael mynediad at Wasanaeth Goruchwyllo o Bell CBAC a'i ddefnyddio.

Dylid darllen y llyfryn hwn ar y cyd â'r dogfennau canlynol:

- Gwasanaeth Goruchwyllo o Bell: Canllaw i Ganolfannau
- Gwasanaeth Goruchwyllo o Bell: Canllaw i Ymgeiswyr

Mae cyfeiriadau at "ni", "ein" drwy'r ddogfen hon yn cyfeirio at CBAC. Mae cyfeiriadau at "chi", "eich" yn cyfeirio at eich canolfan.

2. Gwasanaeth Goruchwyllo o Bell Recordio ac Adolygu CBAC

Goruchwyllo o Bell yw monitro ymgeisydd sy'n sefyll prawf ar sgrin, o leoliad o bell. Mae Goruchwyllo o Bell yn defnyddio gwe-gam cyfrifiadur/gliniadur a microffon i fonitro/recordio'r unigolyn, yn ogystal â monitro'r hyn sy'n digwydd ar sgrin yr unigolyn.

Mae ein Gwasanaeth Goruchwyllo o Bell Recordio ac Adolygu yn caniatáu i asesiad gael ei gynnal yng nghartref ymgeisydd (neu leoliad arall a ddewiswyd) heb oruchwylwr yn yr un ystafell. Mae ein Gwasanaeth Goruchwyllo o Bell yn cefnogi canolfannau i gynllunio a rheoli asesiadau ar adeg sy'n addas i'r ymgeisydd ac i'r ganolfan.

Mae recordiad o'r asesiad yn cael ei wneud, ei gadw, ac yna ei adolygu'n ddiweddarach gan oruchwylwr a benodir gan y ganolfan.

Corff o'r enw Talview sy'n lletya ein Gwasanaeth Goruchwyllo o Bell ac mae'r dull hwn ar gael ar gyfer yr asesiadau canlynol:

- C00/1238/5 CBAC Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd (Cwestiynau Dewis Lluosog)
- C00/0724/6 Sgiliau Cymhwyso Rhif Hanfodol – Lefel 1 (Prawf er mwyn Cadarnhau)
- C00/0724/7 Sgiliau Cymhwyso Rhif Hanfodol – Lefel 2 (Prawf er mwyn Cadarnhau)
- C00/0724/8 Sgiliau Cymhwyso Rhif Hanfodol – Lefel 3 (Prawf er mwyn Cadarnhau)
- C00/0724/9 Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol – Lefel 1 (Prawf er mwyn Cadarnhau)
- C00/0725/0 Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol – Lefel 2 (Prawf er mwyn Cadarnhau)
- C00/0725/2 Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol – Lefel 3 (Prawf er mwyn Cadarnhau)

Mae goruchwyllo o bell yn opsiwn ychwanegol ar gyfer sefyll profion ar sgrin ac nid yw'n disodli'r gallu i sefyll y profion hyn wyneb yn wyneb yn y ganolfan.

3. Adolygu recordiadau: Cyfarwyddiadau Cam wrth Gam


Rhaid i ganolfannau roi gwybod i ymgeiswyr am bwy i roi gwybod yn y ganolfan pan fyddant wedi cwblhau eu hasesiad. Nid oes e-bost awtomataidd yn cael ei anfon yn rhoi gwybod i chi bod asesiad wedi'i gwblhau.




Unwaith y bydd y ganolfan wedi rhoi gwybod i chi bod ymgeisydd wedi cwblhau asesiad, dylech weld ac adolygu'r recordiad er mwyn sicrhau bod yr ymgeisydd wedi ymddwyn yn briodol, ac nad oes unrhyw gamarfer wedi digwydd.

Ar gyfer pob ymgeisydd sy'n cwblhau asesiad drwy oruchwylid o bell, byddwch yn gallu cael mynediad at:


- Delwedd o'r ymgeisydd sy'n cymryd yr asesiad yn ogystal â delwedd o'u ID ffotograffig (os caiff ei gyflwyno)
- Recordiad gwe-gamera, yn dangos wyneb yr ymgeisydd
- Recordiad sain o ficroffon cyfrifiadur yr ymgeisydd
- Sgrinluniau o sgrin yr ymgeisydd yn ystod yr asesiad
- Adroddiad sy'n nodi lle mae'r feddalwedd deallusrwydd artiffisial wedi nodi rhai ymddygiadau y mae angen ymchwilio iddynt yn ystod yr adolygiad. Cyfeirir at y rhain fel 'fflagiau'.

Drwy ddilyn y camau isod, byddwch yn gallu cadarnhau pwy yw'r ymgeisydd a gweld a ydynt wedi cynnal yr asesiad yn briodol.

Cam	Cyfarwyddiadau/Sgrinluniau	
1	Mewngofnodwch i'r llwyfan Talview (https://recruit.talview.com/login) gan ddefnyddio manylion y cyfrif y dylech fod wedi'u derbyn yn barod.	
2		<p>Yn awr, dylech weld eich 'dangosfwrdd' yn dangos sawl ymgeisydd a wahoddwyd i sefyll sesiwn Oruchwyliaeth o Bell a sawl ymgeisydd y mae angen iddyn nhw fynychu eu sesiwn Oruchwyliaeth o Bell o hyd.</p> <p>Cliciwch ar Asesiadau (Assessments).</p>

3		<p>Bydd unrhyw asesiadau yr ydych yn adolygu eu recordiadau i'w gweld ar y rhestr.</p>
4		<p>Os daliwch chi'r llygoden dros bob ffigur/colofn byddwch chi'n gweld hyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sawl ymgeisydd sydd wedi cael gwahoddiad – y golofn gyntaf • sawl ymgeisydd sy'n mynychu eu sesiynau – yr ail golofn • sawl ymgeisydd sydd wedi cwblhau ei sesiwn – y drydedd golofn <p>Nid yw'r bedwaredd a'r bumed golofn yn cael eu defnyddio.</p> <p>Felly, yn y sgrinlun hwn, mae 1 ymgeisydd i fynychu ei sesiwn o hyd a 3 sydd wedi gorffen. Ystyr hyn yw y bydd 3 recordiad i'w hadolygu.</p>
5		<p>Cliciwch ar Enw'r Aseiad.</p>

6



Cliciwch ar y golofn **Cwblhawyd (Completed)**.

Byddwch chi wedyn yn gweld rhestr o'r ymgeiswyr sydd wedi gorffen eu sesiynau.

7

Name	Invite Status	Connect/Surpass frame	Resume	Preview Index
TC Test Candidate 001	Completed	Completed	Upload Resume	Low
MM	Completed	Completed	View Resume	High
MM	Completed	Completed	Upload Resume	High

Y feddalwedd Deallusrwydd Artiffisial sy'n cynhyrchu'r Mynegai Proview. Mae Uchel (High) yn dynodi nifer bach o fflagiau DA, gydag Isel (Low) yn dangos nifer o ddigwyddiadau wedi'u fflagio.

Cliciwch ar **ymgeisydd** am fwy o fanylion.

8

Section Status: **Completed** Section Type: External Preview Section Index: High
Invited at: 03-Mar-21 Completed at: 03-Mar-21 Evaluated at: __

See Answers Evaluation Candidate form Reinvite

Section Status: **Completed**

High

I weld y recordiadau, cliciwch ar y tab **Gweld Atebion (View Answers)** fel y dangosir.

Yna cliciwch ar yr eicon sgôr Proview ar ochr dde uchaf y ffenestr

Noder: Gall y sgôr hon fod yn:

- Uchel (High) – cydymffurfiaeth uchel heb lawer o fflagiau
- Canolig (Medium) – yn cydymffurfio ar y cyfan gyda rhai fflagiau

- IseI (Low) – nifer o fflagiau wedi'u rhestru, rhai ohonyn nhw'n rhai hollbwysig o bosibl

Y rhyngwyneb recordio





Manylion yr ymgeisydd

- yn dangos gwybodaeth am yr ymgeisydd i chi
- Cliciwch ar y tab **Biometreg (Biometrics)** ac yna daliwch y llygodyn dros y mân-luniau i weld lluniau mwy o'r ymgeisydd



Fideo o'r ymgeisydd


Bydd hyn yn dangos y recordiad o we-gamera'r ymgeisydd

Gallwch oedi, ailddirwyn a gwibio'r fideo ymlaen, drwy glicio a llusgo ar y bar chwarae fideo.



Trac Sain

- Yma byddwch chi'n gweld cynrychioliad gweledol o'r sain a recordiwyd o ficroffon yr ymgeisydd
- Ni ddylech ddisgwyl gweld rhyw lawer o ran y sain sy'n cael ei recordio gan y dylai'r ymgeiswyr fod yn cyflawni eu hasesiad mewn amgylchedd tawel




Cliciwch a llusgwch y bar chwarae fideo a bydd y safle hwn i'w weld yn y trac sain

I ymchwilio ar unrhyw bwynt yn y trac sain, cliciwch a llusgwch far chwarae'r fideo i'r pwynt sydd i'w weld isod.



Sgrinluniau



Dangosir y lluniau a dynnwyd o sgrin yr ymgeisydd yma yn ogystal â sawl llun o'r gwe-gamera yn dangos yr ymgeisydd.



Defnyddiwch y bar llwyd o dan y sgrinluniau i sgrolio ymlaen i weld a oes unrhyw newidiadau amlwg o ran sut mae'r ymgeisydd yn edrych.

Os yw'r ymgeisydd wedi symud i ffwrdd o'r ffenestr arholiad, bydd dilyniant y lluniau'n newid yn gyflym – dyma enghraifft (bydd y DA yn fflagio hyn hefyd – gweler isod).

Yma gallwch weld bod newid sylweddol wedi bod yn yr hyn sy'n cael ei ddangos ar sgrin yr ymgeisydd a byddai angen ymchwilio i hyn. Daliwch y cyrchwr dros y sgrinlun i'w wneud yn fwy.



Fflagiau y mae meddalwedd Deallusrwydd Artiffisial yn eu codi

Cliciwch ar y tab 'Public' i weld a chwilio am fflagiau penodol sydd angen eu harchwilio ymhellach.


Gallwch chwilio'r fflagiau hyn gan ddefnyddio'r termau canlynol:

- 'Face'
- 'Environment'
- 'Window' (drwy edrych ar y sgrinluniau)

Ceir esboniad manwl o'r fflagiau hyn isod:

- 'Multiple faces detected' (amryfal wynebau wedi'u canfod) – mae'r DA wedi canfod mwy nag un wyneb ar y gwe-gamera. Noder, mae'n bosibl i'r ymgeisydd achosi hyn os yw'n symud o gwmpas yn sylweddol o fewn yr hyn mae'r gwe-gamera'n gallu ei weld
- 'Face not detected' (wyneb heb ei ganfod) – yn dangos bod yr wyneb wedi symud y tu allan i'r hyn mae'r gwe-gamera'n gallu ei weld. Noder bod yr ymgeisydd ei hun yn gallu cychwyn y fflag hwn drwy edrych i lawr neu i ffwrdd o'r gwe-gamera.
- 'Test environment camera video' (Fideo camera'r amgylchedd prawf) – mae hyn yn

dangos yr ymgeisydd yn gwirio'r amgylchedd (cliciwch ar y botwm chwarae bach i edrych arno)

Test Environment Camera Video 

- 'Window focus out' (Ffocws y ffenestr allan) – symudodd yr ymgeisydd allan o'r tab ffenestr asesu. Cofiwch y bydd yr holl wefannau ar gael i'r ymgeisydd yn ystod yr asesiad ac felly dylai canolfannau roi gwybod i'w hymgeiswyr pa adnoddau y gallant eu defnyddio
- 'Window focus in' (Ffocws y ffenestr i mewn) – mae'r ymgeisydd wedi dychwelyd i'r tab ffenestr asesu

Fflagiau eraill i'w hystyried:

- 'Camera not detected' (Heb ganfod camera) – mae'r gwe-gamera naill ai wedi'i rwystro neu wedi'i ddiffodd/y plwg wedi'i dynnu allan
- 'Camera switched' (Wedi newid camera) – mae'r ymgeisydd wedi newid ei we-gamera
- 'Microphone switched' (Wedi newid microffon) – mae'r ymgeisydd wedi newid ei microffon
- 'Camera screenshot' (Sgrinlun camera) – tynnwyd sgrinlun o sgrin yr ymgeisydd

Yn y rhestr Fflagiau, bydd clicio ar y tag unigol yn chwarae'r fideo yn awtomatig o'r pwynt hwnnw

Bydd clicio ar y botwm **Cau** yn cau'r ffenestr recordiadau

Bydd clicio ar y saeth yn ôl/i'r chwith yn y gornel chwith uchaf yn parhau i fynd â chi'n ôl i'ch rhestr

10

Symud sgript yr ymgeisydd ymlaen

Os ydych yn fodlon bod eich ymgeisydd (ymgeiswyr) wedi cyflawni'r asesiad mewn ffordd dderbyniol yna anfonwch e-bost i CBAC (e-assessment@wjec.co.uk) gyda chodau allwedd y sgriptiau rydych am eu rhyddhau. Nid oes angen unrhyw wybodaeth arall.

Yna bydd y sgript yn cael ei rhyddhau a bydd i'w gweld yn y tab Canlyniadau (Results) ar y system asesu a bydd y marciau'n cael eu prosesu.

4. Nodi a rheoli amheuaeth o gamymddwyn gan ymgeiswyr

Mae'n ofynnol i'ch canolfan gael polisi ar ddelio ag achosion o gamarfer a amheuir gan ymgeiswyr. Efallai y bydd polisi penodol ar gyfer asesiadau a oruchwylir o bell, neu gallai fod yn rhan o'ch polisi camarfer presennol.

Ystyr 'camymddwyn gan ymgeisydd' yw camymddwyn gan ymgeisydd mewn cysylltiad ag unrhyw arholiad neu asesiad, yn cynnwys paratoi a dilysu unrhyw asesiadau di-arholiad gan gynnwys asesiadau dan reolaeth, gwaith cwrs, cyflwyno gwaith ymarferol, casglu portffolios o dystiolaeth asesu a chwblhau unrhyw bapur arholiad.

Mae enghreifftiau o gamymddwyn gan ymgeiswyr a allai ddigwydd yn ystod asesiad wedi'i oruchwyllo o bell yn cynnwys:

- ymgeiswyr yn defnyddio dyfais electronig, fel ffôn symudol neu dabled, yn ystod eu hasesiad.
- ymgeiswyr yn symud i ffwrdd o'r hyn mae'r gwe-gam yn ei weld neu'n diffodd eu gwe-gam ar unrhyw adeg.
- ymgeiswyr yn cael llyfrau, nodiadau neu awgrymiadau yn eu meddiant neu wedi'u harddangos yn eu hystafell asesu (onid yw telerau'r asesiad yn cymeradwyo hynny).
- y llygaid yn symud o gwmpas o hyd, gan fynd nôl ac ymlaen i'r sgrin. Gallai hyn awgrymu bod yr ymgeisydd yn edrych ar ddeunyddiau anawdurdodedig neu'n edrych ar unigolyn a allai fod wedi dod i mewn i'r ystafell.
- gadael ffenestr yr arholiad (porwr gwe) am unrhyw reswm, gan gynnwys er mwyn defnyddio peiriannau chwilio.
- cael unrhyw gyfryngau sain neu weledol yn chwarae yn yr ystafell arholi.

Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr.

Os byddwch yn nodi y gallai ymgeisydd fod wedi cyflawni camarfer, dylech ddogfennu eich pryderon a dilyn eich proses fewnol ar gyfer rheoli achosion o gamarfer a amheuir.